Department for Environment Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad Prydain Fawr ar ddal a thrin dofednod

## Crynodeb o'r ymatebion, ac ymateb y llywodraeth

Mehefin 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos â'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

poultry.catching@defra.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol .......... 4

Ynglŷn â'r ymgynghoriad, a dadansoddiad o'r ymatebion .......... 4

Trosolwg ar y dadansoddiad o'r ymatebion .......... 4

Yr hyn y byddwn yn ei wneud nesaf .......... 5

Cyflwyniad .......... 6

Ynghylch yr ymgynghoriad .......... 6

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad .......... 6

Cwmpas daearyddol .......... 7

Y math o ymatebwyr .......... 7

Yr ymatebion fesul cwestiwn .......... 9

Barn o ran a ddylai'r gyfraith ganiatáu i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes .......... 9

Y dulliau dal a ddefnyddir ar hyn o bryd .......... 10

Cais am ddata o ran y gofynion llafur a'r amseroedd dal .......... 13

Y nifer ddelfrydol o aelodau staff, a'u tâl .......... 15

Canlyniadau lles .......... 17

Yr Asesiad o Effaith yr Ymgynghoriad .......... 18

Dal tyrcwn .......... 21

Barn am ymchwil yn y dyfodol .......... 25

Unrhyw ystyriaethau pellach .......... 26

Ymateb y llywodraeth, a'r camau nesaf .......... 30

# Crynodeb gweithredol

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad, a dadansoddiad o'r ymatebion

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar yr ymatebion a gafwyd a'r pwyntiau o sylwedd a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled Prydain Fawr rhwng 10 Mawrth a 2 Mai 2025 ynghylch y dulliau y caniateir eu defnyddio i godi ac i gario ('dal') dofednod i'w cludo mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd.

Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd i bobl roi eu barn ar gynigion i ddarparu eglurder o ran y dulliau y caniateir eu defnyddio i ddal ieir yn ystod gweithrediadau cludo, hyd nes bod mwy o ymchwil wedi'i chynnal yn y maes hwn. Yn benodol, gofynnwyd i bobl roi eu barn ar ddiwygiad arfaethedig i Reoliad (EC) 1/2005 a gymathwyd ar ddiogelu anifeiliaid yn ystod gweithrediadau cludo a gweithrediadau cysylltiedig ('Rheoliad 1/2005'). Bwriad y diwygiad hwn fyddai dileu'r anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Rheoliad 1/2005 a chanllawiau statudol sefydledig Prydain Fawr i beri i'r gyfraith ganiatáu i ieir (gan gynnwys ieir dodwy ac ieir bwyta ('brwyliaid')) gael eu dal gerfydd dwy goes yn unol â chanllawiau statudol Prydain Fawr.

Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn gofyn i bobl ddarparu mwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddal tyrcwn i'n cynorthwyo i benderfynu a ddylai'r gyfraith hefyd ganiatáu i dyrcwn (o fewn ystod bwysau benodol) gael eu dal gerfydd dwy goes.

### Trosolwg ar y dadansoddiad o'r ymatebion

Daeth 103 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion i law gan aelodau o'r cyhoedd, ac roedd hyn yn cynnwys ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch. Cafwyd ymatebion hefyd gan sefydliadau anllywodraethol, y sector dofednod, awdurdodau lleol, academyddion a milfeddygon.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi prif gynnig yr ymgynghoriad, sef caniatáu i ieir dodwy ac ieir cig gael eu dal gerfydd dwy goes, yn unol â chanllawiau statudol presennol Prydain Fawr. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o ymgyrch wedi effeithio ar hyn. Roedd yr ymatebion gan y sector dofednod yn cynnwys nifer fach o ymatebion unigol gan gynhyrchwyr dofednod a chwmnïau dal, gyda chyrff masnach y sector yn coladu ymatebion ar ran eu haelodau a'r cwmnïau dal.

Er nad oedd yr ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch yn bennaf o blaid diwygio'r ddeddfwriaeth (cwestiwn 9a), bu iddynt gydnabod nad oedd diwydiannau dofednod Prydain mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd i bontio at drefn dal ieir gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny. Roeddent yn cyfaddef y byddai diwygio'r ddeddfwriaeth o blaid dal ieir gerfydd dwy goes yn gam canolraddol priodol (oddi wrth eu dal gerfydd un goes),

cyhyd â'i bod yn orfodol pontio at drefn dal ieir â'u pennau i fyny erbyn diwedd cyfnod o bum mlynedd.

Tynnodd y diwydiannau dofednod sylw at sawl rhwystr pwysig a fyddai'n effeithio ar lwyddiant unrhyw broses bontio fasnachol oddi wrth eu harferion presennol (dal gerfydd un a dwy goes) at ddulliau dal amgen. Yn eu plith roedd prinder gweithwyr, pryderon o ran iechyd a diogelwch pobl, y gost, a'r newidiadau ymarferol y byddai'n ofynnol eu gwneud i'r seilwaith.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cwestiwn ynghylch a ddylai'r gyfraith ganiatáu i dyrcwn (sy'n pwyso hyd at 10kg) gael eu codi gerfydd dwy goes ychwaith. Un o'r prif bryderon o ran hyn oedd bod yr ystod bwysau'n rhy eang. Bu i'r ymatebion a goladwyd gan y diwydiant gadarnhau mai dim ond tyrcwn hyd at 5kg sydd fel rheol yn cael eu dal gerfydd dwy goes, tra mae dulliau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer adar trymach.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud nesaf

Hoffai Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y DU), Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ddiolch i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn am eu safbwyntiau a'u hadborth. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr wybodaeth a'r ymatebion a gyflwynwyd, ac rydym wedi cytuno ar y camau nesaf a ganlyn.

Byddwn yn dileu'r anghysondeb rhwng y ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol sefydledig Prydain Fawr ar gyfer ieir dodwy ac ieir cig drwy ddiwygio Rheoliad 1/2005 i esemptio ieir a thyrcwn rhag y gwaharddiad ym mharagraff 1.8 o Bennod III o Atodiad I ar godi anifeiliaid gerfydd eu coesau.

Bydd y diwygiad hefyd yn ei gwneud yn glir, pan fo ieir, a thyrcwn sy'n pwyso 5kg a llai, yn cael eu dal gerfydd eu coesau, bod rhaid eu dal, eu codi a'u cario gerfydd dwy goes. Yn achos tyrcwn sy'n pwyso mwy na 5kg, bydd y diwygiad yn gwahardd eu codi a'u cario ben i waered, boed drwy eu dal gerfydd eu coesau neu fel arall.

Bydd hyn yn rhoi eglurder i'r diwydiannau wyau, ieir cig a thyrcwn, a'u cwmnïau dal cysylltiedig, o ran y gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i ddal dofednod yn ystod gweithrediadau cludo a gweithrediadau cysylltiedig.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, o ran sut y gellir casglu a dadansoddi mwy o ddata cadarn am y berthynas rhwng gwahanol ddulliau dal â llaw a chanlyniadau lles, yn gosod sail ar gyfer llif gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r bwriad o fynd i'r afael â bylchau pwysig yn y sylfaen dystiolaeth. Erbyn hyn, mae Defra wedi comisiynu prosiect ymchwil i astudio effaith gwahanol ddulliau dal (gan gynnwys dal adar gerfydd dwy goes a'u dal â'u pennau i fyny) gyda'r sectorau ieir cig, ieir dodwy a thyrcwn a gwahanol systemau cadw dofednod. Bydd hyn yn ceisio cadarnhau a allai pontio'n llwyr at system dal dofednod â'u pennau i fyny fod yn bosibl o safbwynt ymarferol yn y tymor hwy a gwireddu gwelliannau clir o ran canlyniadau lles.

# Cyflwyniad

## Ynghylch yr ymgynghoriad

Ar 10 Mawrth 2025, cyhoeddodd Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ledled Prydain Fawr ar gynigion i ddarparu eglurder o ran y dulliau y caniateir eu defnyddio i ddal ieir yn ystod gweithrediadau cludo, a chynigion mwy penodol i ddiwygio Rheoliad (EC) 1/2005 a gymathwyd ar ddiogelu anifeiliaid yn ystod gweithrediadau cludo a gweithrediadau cysylltiedig ('Rheoliad 1/2005') yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Daeth yr ymgynghoriad i ben am 23:59 ar 2 Mai 2025.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn yn benodol i bobl roi eu barn ar ddiwygiad arfaethedig a fyddai'n dileu anghysondeb sy'n bodoli rhwng Rheoliad 1/2005 a chanllawiau statudol sefydledig Prydain Fawr i beri i'r gyfraith ganiatáu i ieir (gan gynnwys ieir dodwy ac ieir bwyta ('brwyliaid')) gael eu dal gerfydd dwy goes, yn unol â'r canllawiau statudol.

Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn gofyn i bobl ddarparu mwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddal tyrcwn i'n cynorthwyo i benderfynu a ddylai diwygiad pellach hefyd beri i'r gyfraith ganiatáu i dyrcwn (o fewn ystod bwysau benodol) gael eu dal gerfydd dwy goes.

Gan fod fersiwn yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) o Reoliad 1/2005 o fewn cwmpas Fframwaith Windsor, mae'r fersiwn honno'n parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ac, i'r perwyl hwnnw, ni fyddai'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori ond yn gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Yn y crynodeb hwn o'r ymatebion, rydym yn adrodd am nifer (a chyfran) yr ymatebwyr a fynegodd farn benodol yn eu hymatebion i'r cwestiynau caeedig, ac yn cyflwyno dadansoddiad thematig ansoddol o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau penagored, a hynny i sicrhau bod modd ystyried yn llwyr yr ystod o faterion a godwyd gan yr ymatebwyr a'r gwahaniaethau barn.

## Yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 103 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 4 ymateb a goladwyd gan y diwydiant (a baratowyd gan gyrff masnach a sefydliadau aelodaeth y sectorau perthnasol ar ran eu haelodau niferus a'r cwmnïau dal dofednod)
- 35 ymateb a oedd yn rhan o ymgyrch (nodwyd eu bod yn rhan o ymgyrch am fod testun yr ymatebion yn debyg iawn)
- 64 ymateb gan unigolion

Cyflwynwyd 98 ymateb drwy'r arolwg Citizen Space, a daeth pump ymateb i law drwy e-bost. Lle'r oedd modd, cafodd yr ymatebion a ddaeth i law drwy e-bost eu halinio â'r rheini a ddaeth i law drwy Citizen Space. Ceir crynodeb o'r dadansoddiad meintiol neu ansoddol o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau ymgynghori o dan bob un o'r penawdau a geir yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Ceir dadansoddiad o'r ymatebwyr yn Nhablau 1 a 2 isod.

## Cwmpas daearyddol

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (84% o'r sefydliadau ac 82% o'r unigolion) wedi'u lleoli yn Lloegr. Cafwyd cynrychiolaeth hefyd o rannau eraill o Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

**Tabl 1:** Lleoliad daearyddol yr ymatebwyr yn nhermau'r rheini a oedd yn ymateb fel sefydliad neu fel unigolyn

| Cwmpas daearyddol | Sefydliad | Unigolyn |
|---|---|---|
| **Lloegr** | 32 (84%) | 53 (82%) |
| **Yr Alban** | 4 (11%) | 6 (9%) |
| **Cymru** | 1 (3%) | 3 (5%) |
| **Gogledd Iwerddon** | 1 (3%) | 0 (0%) |
| **Heb fod yn y DU (Ewrop)** | 0 (0%) | 2 (3%) |
| **Y tu allan i Ewrop** | 0 (0%) | 1 (2%) |
| ***Cyfanswm*** | *38 (37%)* | *65 (63%)* |

## Y math o ymatebwyr

Cawsom wybod gan fanwerthwr na fu i'w sector ymateb am iddo benderfynu y byddai ei gyflenwyr yn ymateb yn unigol neu drwy ymatebion wedi'u coladu a'u trefnu gan gyrff masnach a sefydliadau aelodaeth y sector dofednod.

I'n cynorthwyo i ddadansoddi'r ymatebion, bu inni grwpio'r ymatebwyr yn ôl y 'mathau' o randdeiliaid, fel y dangosir yn Nhabl 2 isod. Rydym yn cyfeirio at y mathau hyn o randdeiliaid drwy weddill y crynodeb o'r ymatebion. Cafodd yr ymatebwyr eu grwpio fel a ganlyn:

- Academyddion = 9 ymatebwr
- Awdurdodau lleol = 6 ymatebwr
- Y cyhoedd = 44 ymatebwr
- Cyrff anllywodraethol = 20 ymatebwr
- Y diwydiant dofednod = 20 ymatebwr
- Milfeddygon = 2 ymatebwr

Cafodd yr ymatebwyr a ddewisodd 'arall' eu dyrannu i'r 'math' mwyaf perthnasol o randdeiliad o ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt. Aelodau o'r cyhoedd nad oeddent yn eu hystyried eu hunain yn 'ddefnyddwyr' oedd y rhan fwyaf o'r rhain.

**Tabl 2:** Hyd a lled y rolau yr oedd yr ymatebwyr yn eu cynrychioli. Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na 100% gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis sawl rôl

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion | 'Math' o randdeiliad |
|---|---|---|
| **Academaidd** | 9 (9%) | Academaidd |
| **Sefydliad lles anifeiliaid** | 19 (18%) | Cyrff anllywodraethol |
| **Defnyddiwr** | 37 (36%) | Y cyhoedd |
| **Awdurdod lleol** | 6 (6%) | Awdurdodau lleol |
| **Cynllun gwarant fferm** | 1 (1%) | Y diwydiant dofednod |
| **Sefydliad ffermio neu gorff masnach** | 5 (5%) | Y diwydiant dofednod |
| **Bridiwr dofednod (ieir cig)** | 1 (1%) | Y diwydiant dofednod |
| **Bridiwr dofednod (ieir dodwy)** | 1 (1%) | Y diwydiant dofednod |
| **Bridiwr dofednod (tyrcwn)** | 0 (0%) | Y diwydiant dofednod |
| **Daliwr dofednod** | 5 (5%) | Y diwydiant dofednod |
| **Ffermwr cig dofednod (ieir)** | 7 (7%) | Y diwydiant dofednod |
| **Ffermwr cig dofednod (tyrcwn)** | 1 (1%) | Y diwydiant dofednod |
| **Ffermwr cig dofednod (arall)** | 0 (0%) | Y diwydiant dofednod |
| **Cyfunydd cig dofednod** | 1 (1%) | Y diwydiant dofednod |
| **Prosesydd dofednod** | 4 (4%) | Y diwydiant dofednod |
| **Cludydd dofednod** | 4 (4%) | Y diwydiant dofednod |
| **Magwr cywennod** | 2 (2%) | Y diwydiant dofednod |
| **Corff masnach neu sefydliad aelodaeth y sector** | 4 (4%) | Y diwydiant dofednod |
| **Cynhyrchydd wyau bwrdd (ieir)** | 5 (5%) | Y diwydiant dofednod |
| **Cynhyrchydd wyau bwrdd (arall)** | 0 (0%) | Y diwydiant dofednod |
| **Milfeddyg** | 1 (1%) | Milfeddygon |
| **Manwerthwr** | 0 (0%) | Dim ymatebion |
| **Arall** | 14 (14%) | Fe'u hychwanegwyd at y 'math' mwyaf perthnasol o randdeiliad |

# Yr ymatebion fesul cwestiwn

## Barn o ran a ddylai'r gyfraith ganiatáu i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes

### C9a. A ddylid caniatáu'n gyfreithiol i ddal ieir wrth ddwy goes er mwyn eu llwytho a'u dadlwytho i'w cludo?

**Tabl 3:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig o ran a ddylid caniatáu i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 41 | 40% |
| **Anghytuno** | 61 | 59% |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0% |
| **Heb ateb** | 1 | 1% |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, 61 o'r 103 (59%), yn anghytuno â'r cynnig i ddiwygio'r ddeddfwriaeth i ganiatáu i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes, yn unol â chanllawiau statudol Prydain Fawr. O blith y rhain, roedd y farn wedi'i hollti rhwng y rheini a oedd yn cefnogi dal ieir gerfydd un goes (dau ymateb gan randdeiliaid yn y diwydiant dofednod) a'r rheini a oedd yn ffafrio dal ieir gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny yn hytrach na'u dal gerfydd dwy goes.

O blith y 59 ymateb a oedd o blaid dal ieir gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny, gellir dadansoddi'r rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- Y cyhoedd = 38 ymateb (gyda 35 o'r rheini'n rhan o ymateb ymgyrch)
- Cyrff anllywodraethol = 16 ymateb
- Academyddion = 4 ymateb
- Awdurdodau lleol = 1 ymateb

O blith y 41 (40%) ymateb a oedd o blaid y cynnig, gellir dadansoddi'r rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- Y diwydiant dofednod = 20 ymateb
- Academyddion = 5 ymateb
- Y cyhoedd = 5 ymateb
- Awdurdodau lleol = 5 ymateb
- Cyrff anllywodraethol = 4 ymateb
- Milfeddygon = 2 ymateb

### C9b. Os atebwch 'dylid', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn

Crynodeb o’r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 9b:

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi’r cynnig yn bennaf o’r farn nad oedd dal adar gerfydd dwy goes yn andwyol i’w lles, ac roedd canfyddiad bod y dull hwn yn gysylltiedig ag amseroedd dal byrrach a chostau is, o’i gymharu â dal adar â’u pennau i fyny.

Ymhlith y themâu eraill a godwyd, roedd y themâu a ganlyn:

- mae dal ieir gerfydd dwy goes yn well i iechyd a llesiant y tîm dal dofednod na’u dal â’u pennau i fyny
- nid yw dal ieir â’u pennau i fyny yn addas ar gyfer rhai systemau cadw dofednod
- mae dal ieir gerfydd dwy goes yn gam pontio derbyniol rhwng eu dal gerfydd un goes a’u dal â’u pennau i fyny
- ar hyn o bryd, nid oes digon o weithwyr ar gael ym Mhrydain Fawr i ddarparu ar gyfer dal ieir â’u pennau i fyny

Tynnodd nifer fach o ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig sylw at fantais sicrhau bod y gofynion cyfreithiol o ran dal dofednod yn gyson ac yn eglur.

Sylwch: rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â’r cynnig amlinellu’r rheswm/rhesymau dros hyn mewn rhan arall o’r ymgynghoriad (gweler cwestiwn 23, tudalen 25).

## Y dulliau dal a ddefnyddir ar hyn o bryd

### C10. Ydych chi neu eich sefydliad yn dal ieir at ddibenion gweithrediadau llwytho a dadlwytho?

Er mai dim ond nifer gymharol fach o’r ymatebwyr, 19 o’r 103 (18%), a ddywedodd eu bod yn dal ieir at ddibenion llwytho a dadlwytho, roedd nifer o’r rhain yn ymatebion a goladwyd (a gyflwynwyd gan gyrff masnach y sector ar ran eu haelodau a’r cwmnïau dal dofednod). Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (84, 82%) yn ymwneud â dal ieir neu bu iddynt ddewis peidio ag ateb y cwestiwn.

**Tabl 4:** Ymatebion i’r cwestiwn caeedig o ran a yw’r ymatebwr neu’i sefydliad yn dal ieir

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 19 | 18% |
| **Nac ydw** | 72 | 70% |
| **Heb ateb** | 12 | 12% |

Dim ond yr 19 ymatebwr a oedd yn dal ieir a atebodd y cwestiynau canlynol (C11 i 16).

## C11. Pa sector a system cadw dofednod ydych chi'n gweithio gyda nhw?

O blith yr 19 ymatebwr a oedd yn ymwneud â dal ieir, roedd cwmpas eu profiad ar draws gwahanol sectorau a systemau cadw yn eang. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt brofiad o weithio gydag ieir cig (deg ymatebwr), ieir dodwy a gedwir ar y llawr (naw ymatebwr) ac ieir dodwy a gedwir mewn adardy (naw ymatebwr). Ymhlith y sectorau a'r systemau cadw dofednod â'r nifer leiaf o ymatebwyr roedd bridwyr ieir dodwy (tri ymatebwr) a chywennod mewn cewyll (dau ymatebwr).

**Tabl 5:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn pa sector a system cadw dofednod y mae'r ymatebwyr yn gweithio gyda nhw. Dim ond y rheini sy'n dal ieir y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt (fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 10). Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy nag 19 gan fod nifer o'r ymatebwyr wedi dewis mwy nag un ateb.

| Ymateb | Cyfanswm |
|---|---|
| **Cywennod ieir dodwy: mewn cewyll** | 2 |
| **Cywennod ieir dodwy: wedi'u cadw ar y llawr** | 7 |
| **Cywennod ieir dodwy: sawl haen** | 7 |
| **Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd mewn cewyll** | 7 |
| **Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd wedi'u cadw ar y llawr** | 9 |
| **Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd mewn adardy** | 9 |
| **Ieir dodwy: bridwyr ieir dodwy** | 3 |
| **Ieir bwyta: cywion brwylio** | 10 |
| **Ieir bwyta: bridwyr cywion brwylio** | 5 |

## C12a. Pa ddull o ddal ieir ydych chi neu eich sefydliad yn ei ddefnyddio?

Er bod yr 19 ymatebwr sy'n dal ieir gyda'i gilydd wedi hawlio bod ganddynt brofiad o ddal ieir drwy amrywiaeth o wahanol ddulliau, nid oedd modd inni bennu hyd a lled eu profiad o ddefnyddio pob dull ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd. Dywedodd y rhan fwyaf (16 ymateb) eu bod yn dal ieir gerfydd dwy goes. Mae ychydig llai na hanner (naw ymateb) yn eu dal gan ddefnyddio dull 'arall', a dal ieir â'u pennau i fyny oedd y dull a ddefnyddir leiaf (saith ymateb).

**Tabl 6:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn pa ddulliau dal ieir a ddefnyddir. Dim ond y rheini sy'n dal ieir y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt (fel y

nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 10). Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy nag 19 gan fod nifer o'r ymatebwyr wedi dewis mwy nag un ateb.

| Ymateb | Cyfanswm |
|---|---|
| **Gerfydd dwy goes** | 16 |
| **Â'u pennau i fyny** | 7 |
| **Arall** | 9 |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 0 |

Er bod saith ymatebwr wedi hawlio eu bod yn dal ieir gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn adlewyrchu'r safon fasnachol. Roedd dau o'r ymatebwyr hyn yn academyddion, roedd dau yn gyrff anllywodraethol, roedd un yn gynhyrchydd wyau a oedd yn dal ieir â'u pennau i fyny pan fyddai angen codi adar unigol, ac eglurodd dau randdeiliaid (a oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant ieir cig) yn ddiweddarach mai dal ieir gerfydd un goes oedd y dull a ddefnyddiwyd ganddynt yn ddiofyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddewisodd yr ateb 'arall' eu bod yn dal ieir gerfydd un goes, ac roedd yn amlwg bod ieir cig, a rhai ieir dodwy, yn cael eu dal gerfydd un goes ar hyn o bryd. Mae un ymatebwr yn dal ieir cig yn fecanyddol, ac ni fu i ymatebwr arall ddatgelu'r dull dal a ddefnyddir ganddo.

Nid yw'n ymddangos bod y canfyddiadau hyn yn gynrychioliadol o bob sector yn y diwydiant dofednod. Roedd gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd fel rhan o ymatebion a goladwyd gan y diwydiant yn amcangyfrif bod 100% o'r ieir magu cywion brwylio yn cael eu dal gerfydd dwy goes pan gânt eu trosglwyddo (o'r uned fagu i'r uned oedolion) a bod y dull dwy goes yn cael ei ddefnyddio'n eang gan y diwydiant wyau. Roedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud â'r diwydiant ieir cig, a ddarparwyd eto fel rhan o ymateb a goladwyd gan y diwydiant, yn amcangyfrif bod y dull dal gerfydd un goes ar hyn o bryd yn cyfrif am 88% o'r ieir cig, tra mae 7% yn cael eu dal yn fecanyddol a 5% yn cael eu dal gerfydd dwy goes.

## C12b. Os dewiswyd sawl dull, rhowch wybodaeth ychwanegol ynghylch pryd, a pham, mae pob un yn fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio

Crynodeb o'r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 12b:

O blith y 10 ymatebwr sy'n dal ieir gan ddefnyddio sawl dull, y prif ffactor a nodwyd ganddynt fel y ffactor sy'n gyfrifol am bennu'r dull a ddefnyddir ganddynt yw'r sector (h.y. a yw'r adar yn ieir cig, yn ieir dodwy neu'n gywennod). Ymhlith yr ystyriaethau eraill roedd lles anifeiliaid, y system cadw dofednod, safonau'r cynllun gwarant perthnasol, a'r dull a ffefrir gan y cynhyrchydd.

### C12c. Os dewiswyd un dull, rhowch wybodaeth ychwanegol ynghylch pam y dewiswyd y dull hwn

Crynodeb o’r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 12c:

O blith yr wyth ymatebwr sy’n dal ieir gan ddefnyddio un dull, roedd y ffactorau sy’n dylanwadu ar y dull a ddewisir ganddynt yn cynnwys safonau’r cynllun gwarant perthnasol, cyflymder y dull dal, mwy o gywirdeb yn ystod y broses lwytho (cratiau a modiwlau), a lles anifeiliaid.

Dewisodd hanner yr ymatebwyr beidio â chyfiawnhau eu rheswm.

## Cais am ddata o ran y gofynion llafur a’r amseroedd dal

### C13. Faint o amser mae’n ei gymryd i ddal llwyth llawn (lori gludo)? Ar gyfer pob senario, dewiswch o’r opsiynau perthnasol a nodwch nifer yr adar a ddaliwyd a’r amser cyfatebol

Cyflwynwyd gwybodaeth sy’n berthnasol i’r cwestiwn hwn gan 16 ymatebwr. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan unigolion ac ymatebion a goladwyd gan randdeiliaid y diwydiant.

**Tabl 7:** Ymatebion i’r cwestiwn penagored a oedd yn gofyn am wybodaeth am faint y tîm dal a’r amser dal. Cafodd yr wybodaeth hon ei throsi’n nifer yr adar a ddelir fesul awr, a’i chrynhoi fesul sector.

**(a) Ieir dodwy**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|
| **Cawell** | Un goes | >8 | Modiwl | 5000 [1] |
| **Cawell** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 2534 – 3040 [2] |
| **Cawell** | Dwy goes | >8 | Crât | 1000 [1] |
| **Dec gwastad** | Un goes | 6 | Modiwl | 6000 [1] |
| **Dec gwastad** | Un goes | >8 | Modiwl | 3750 – 4224 [2] |
| **Dec gwastad** | Dwy goes | 7 | Modiwl | 3000 [1] |
| **Dec gwastad** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 3500 [2] |
| **Dec gwastad** | Dwy goes | >8 | Crât | 667 [1] |
| **Sawl haen neu adardy** | Un goes | 6 | Modiwl | 6500 [1] |
| **Sawl haen neu adardy** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 2533 – 4000 [5] |

**(b) Cywennod**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|
| **Cawell** | Dwy goes | 8 | Crât | 3378 [1] |
| **Cawell** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 4000 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | 8 | Crât | 2000 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | >8 | Crât | 2533 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 5333 [1] |
| **Sawl haen neu adardy** | Dwy goes | >8 | Modiwl | 2000 [1] |

**(c) Ieir magu cywion dodwy**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Proses | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dec gwastad** | Dwy goes | >8 | Modiwl | Didboblogi | 3000 [2] |

**(d) Ieir cig (brwyliaid)**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Proses | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawr** | Un goes | 4 | Modiwl | Diboblogi | 4000-6000 [2] |
| **Llawr** | Un goes | 5 | Modiwl | Teneuo | 6560-7200 [2] |
| **Llawr** | Un goes | 5 | Modiwl | Diboblogi | 4800-5122 [2] |
| **Llawr** | Dwy goes | 5 | Modiwl | Diboblogi | 1250 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | 6 | Modiwl | Diboblogi | 2857 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | 7 | Modiwl | Diboblogi | 5000 [1] |
| **Llawr** | Mecanyddol | 5 | Modiwl | Diboblogi | 4800 [1] |

**(e) Ieir magu cywion brwylio**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Proses | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawr** | Un goes | 7 | Modiwl | Diboblogi | 2900 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | 7 | Modiwl | Trosglwyddo | 2900 [1] |
| **Llawr** | Dwy goes | 7 | Modiwl | Diboblogi | 2750 [1] |
| **Llawr** | Corff | 4 | Crât | Diboblogi | 800 [1] |
| **Dec gwastad** | Dwy goes | >8 | Modiwl | Diboblogi | 1848 [1] |

**(f) Tyrcwn**

| System cadw dofednod | Dull dal | Maint y tîm dal | Cynhwysydd cludo | Nifer yr adar fesul awr [Nifer yr ymatebion] |
|---|---|---|---|---|
| **Llawr** | Dwy goes | 5 | Modiwl | 750 [1] |

# Y nifer ddelfrydol o aelodau staff, a'u tâl

## C14. Beth yw'r nifer ddelfrydol o aelodau staff ar gyfer tîm dal safonol? Nodwch sut y gallai hyn amrywio yn ôl y dull dal, maint yr haid, y sector a'r system cadw dofednod

Cyflwynwyd gwybodaeth amrywiol, ac roedd lefelau manylder yr wybodaeth honno'n amrywio hefyd. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Tabl 8:** Ymatebion i'r cwestiwn penagored ynghylch maint delfrydol tîm dal dofednod. I safoni'r wybodaeth, cafodd maint yr haid ei rannu â nifer y dalwyr mewn tîm i gyfrifo nifer yr adar fesul daliwr.

| Sector | System | Maint delfrydol y tîm dal [Nifer yr ymatebion] | Nifer yr adar fesul daliwr [Nifer yr ymatebion] | Newidynnau eraill |
|---|---|---|---|---|
| **Ieir dodwy** | Heb ei nodi | 6-16 [4] | 200 - 250 [1] | Heb ei nodi |
| **Ieir dodwy** | Nythfa | 16-25 [2] | 1267 [1] | Heb ei nodi |
| **Ieir dodwy** | Dec gwastad | 8-25 [2] | 1267 [1] | Heb ei nodi |
| **Ieir dodwy** | Sawl haen neu adardy | 11-12 [1] | 2667 - 2909 [1] | Heb ei nodi |
| **Cywennod** | Heb ei nodi | 6-30 [3] | Heb ei nodi | Heb ei nodi |
| **Ieir cig** | Llawr | 4-16 [3] | 2500 [1] | Heb ei nodi |
| **Ieir cig** | Llawr | 4-5 [1] | Heb ei nodi | Un goes |
| **Ieir cig** | Llawr | 6 [1] | Heb ei nodi | Dwy goes |
| **Ieir cig** | Llawr | 5 [1] | Heb ei nodi | Mecanyddol |
| **Ieir cig** | Llawr | 4 [1] | 2000 [1] | Unedau symudol |
| **Ieir magu cywion brwylio** | Heb ei nodi | 5-6 [1] | Heb ei nodi | Trosglwyddo |
| **Ieir magu cywion brwylio** | Heb ei nodi | 3-14 [3] | 1320 [1] | Diboblogi |
| **Tyrcwn** | Heb ei nodi | 4-8 [2] | 300 [1] | Heb ei nodi |

Dywedodd yr ymatebwyr fod sawl ffactor yn dylanwadu ar faint delfrydol y tîm dal, gan gynnwys:

- nifer y gweithwyr sydd ar gael ar y fferm

- amodau'r tywydd
- brîd yr aderyn
- hyd y siwrnai o'r uned
- cynllun y sied (yn enwedig y gallu i fynd â'r cratiau neu'r modiwlau'n agos at yr adar)

## C15. Sut mae staff trin neu ddal dofednod yn cael eu talu?

**Tabl 9:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig o ran sut y mae staff dal neu drin dofednod yn cael eu talu. Dim ond y rheini sy'n dal ieir y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt (fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 10). Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy nag 19 gan fod nifer o'r ymatebwyr wedi dewis mwy nag un ateb.

| Ymateb | Cyfanswm |
|---|---|
| **Heb ateb** | 3 |
| **Cyfradd fesul awr** | 8 |
| **Cyflog blynyddol** | 3 |
| **Cyfradd fesul aderyn** | 5 |
| **Arall** | 3 |

Bu i'r ymatebwyr gadarnhau y gall staff dal neu drin dofednod gael eu talu mewn sawl ffordd wahanol. Y dull talu mwyaf cyffredin y rhoddwyd gwybod amdano, ac a ddewiswyd gan wyth o'r 19 ymatebwr sy'n dal ieir, oedd cyfradd fesul awr. Ymhlith y dulliau talu a ddefnyddiwyd yn llai aml roedd cyfradd fesul aderyn (pum ymateb) a chyflog blynyddol (tri ymateb).

Ymhlith y dulliau talu 'eraill' a ddewiswyd gan dri o'r 19 ymatebwr, roedd cyfradd dydd gyda thaliadau goramser (un ymateb), tra mae corff anllywodraethol sy'n ailgartrefu ieir dodwy yn talu costau tanwydd yn unig i'w rwydwaith o wirfoddolwyr (un ymateb).

## C16. Beth yw'r cyflog cyfartalog ar gyfer staff trin neu ddalwyr dofednod?

**Tabl 10:** Ymatebion i'r cwestiwn penagored ynghylch cyfradd cyflog cyfartalog gweithwyr dal neu drin dofednod

| Ymateb | Swm | Ymatebion |
|---|---|---|
| **Cyfradd fesul awr** | £12.20 i £15.20 | 8 |
| **Cyflog blynyddol** | £31,200 i £50,000 | 3 |
| **Cyfradd fesul aderyn** | Ni ddarparwyd gwybodaeth | 0 |

O blith yr 19 ymatebwr sy'n dal ieir, roedd wyth yn darparu tâl fesul awr i weithwyr dal neu drin dofednod. Roedd y cyfraddau'n amrywio o £12.20 i £15.20 yr awr, gyda

chyfartaledd o £13.93 yr awr. Darparodd tri ymatebwr amcangyfrif o gyflog blynyddol, ac roedd y rhain yn amrywio o £31,200 i £50,000. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am gyfraddau tâl fesul aderyn.

Eglurodd un ymatebwr fod yr un gyfradd awr yn cael ei thalu am amser teithio ac amser gweithio, a bod hyn yn dechrau o'r adeg y mae'r tîm dal yn mynd i'r bws mini. Dywedodd hefyd, oherwydd lleoliad yr unedau dofednod, fod y tâl am yr amser teithio yn gallu cyfrif am gyfran sylweddol o'r arian a enillir.

## Canlyniadau lles

### C17a. Ydych chi'n cofnodi, neu'n gallu cael gafael ar ddata am ganlyniadau lles adar sy'n gysylltiedig â dal adar? Er enghraifft, trapio, marw wrth gyrraedd y lladd-dy, difrod i'r carcas (cleisio, esgyrn wedi torri, gwrthodiadau), ac ati.

Mae pob un o'r 19 o'r 103 ymatebwr sy'n ymwneud â dal ieir (fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 9) hefyd yn cofnodi'r canlyniadau lles sy'n gysylltiedig â'u dal, neu'n gallu cael gafael ar y data hynny. Bu i'r 84 ymatebwr arall naill ai ateb 'nac ydw' neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

**Tabl 11:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn a oedd yr ymatebwr yn gallu cael gafael ar ddata am y canlyniadau lles sy'n gysylltiedig â dal dofednod

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 19 | 18% |
| **Nac ydw** | 51 | 50% |
| **Heb ateb** | 33 | 32% |

### C17b. Os atebwch 'ydw', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn

Crynodeb o'r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 17b:

Darparwyd data gan ddau yn unig o'r 19 ymatebwr (11%) sy'n cofnodi data am 'ganlyniadau lles adar sy'n ymwneud yn benodol â'u dal', neu'n gallu cael gafael ar y data hynny. Bu i'r rhan fwyaf restru'r math o wybodaeth y maent yn ei monitro.

Yn yr ymateb cyntaf, darparwyd 12 mis o ddata ar gyfer ieir cig sy'n cael eu dal gerfydd un goes, fel a ganlyn: wedi marw erbyn iddynt gyrraedd y lladd-dy = 0.08%, wedi'u cleisio = 0.01%, wedi'u trapio = 0.001%, wedi'u gwrthod yn y walfa = 0.007%, coesau wedi torri = 0.001%, adenydd wedi torri = 0.06%.

Darparodd yr ail ymateb ddata a oedd yn gysylltiedig â 30,000 o ieir dodwy a gafodd eu dal gerfydd dwy goes mewn system aml-haen neu adardy, fel a ganlyn: wedi marw erbyn iddynt gyrraedd y lladd-dy = 0.03%, wedi'u hanafu = 0.10%.

Tanlinellodd sawl ymatebwr nad yw'r data am ganlyniadau lles a gofnodir mewn ffatrïoedd prosesu o reidrwydd yn dangos bod adar wedi'u trin neu'u dal yn wael. Cafodd iechyd ac ymddygiad yr haid cyn dal yr adar, y tywydd, y cludiant, a'r prosesu dilynol eu crybwyll fel ffactorau a allai ddylanwadu ar y canlyniadau lles.

Oherwydd yr anhawster o ran asesu'r niwed a wneir i adar pluog pan gânt eu dal, caiff niwed i'r carcas yn aml ei fesur ar ôl ei sgaldio a'i bluo. Fodd bynnag, gall niwed i'r carcas (gan gynnwys cleisiau a thoriadau) ddigwydd yn ystod y gweithrediadau prosesu sy'n digwydd ar ôl lladd yr adar.

# Yr Asesiad o Effaith yr Ymgynghoriad

## C18a. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effaith a'i fethodoleg?

Dywedodd 28 o'r 103 o ymatebwyr (27%) fod ganddynt sylwadau ynghylch yr asesiad o effaith yr ymgynghoriad. Bu i'r 75 ymatebwr sy'n weddill (73%) naill ai ateb 'nac oes' neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

**Tabl 12:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn a oedd gan yr ymatebwr sylwadau ynghylch yr asesiad effaith

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Oes** | 28 | 27% |
| **Nac oes** | 43 | 42% |
| **Heb ateb** | 32 | 31% |

## C18b. Os atebwch 'oes', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn

Crynodeb o'r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 18b:

**Dim ystyriaeth o'r effaith ar bobl**

O blith yr ymatebwyr a atebodd 'oes' i'r cwestiwn blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y ffaith na chafodd effaith debygol y dull dal ar iechyd a diogelwch y timau dal ei hystyried o gwbl yn hepgoriad pwysig.

Ymhlith y pwyntiau penodol a wnaed, roedd y pwyntiau a ganlyn:

- roedd dal gerfydd dwy goes a dal gerfydd y corff yn llai ergonomig na dal gerfydd un goes

- mae mwy risg o anaf i bobl yn uniongyrchol gysylltiedig â dal a thrin adar â'r ddwy law wrth weithio'n uchel (er enghraifft, mewn systemau cadw ieir dodwy aml-haen)
- o wneud gwaith corfforol am oriau hirach (gan gynnwys mwy o siwrneiau i'r modiwlau ac ohonynt) byddai'r gweithwyr dal yn fwy blinedig
- byddai cael mwy o weithwyr yn bresennol yn yr un gofod caeedig, gyda mwy o gerbydau a mwy o beiriannau, yn arbennig o beryglus

Tanlinellodd ymateb a goladwyd gan y diwydiant ieir cig y byddai symud at drefn dal gerfydd dwy goes yn gofyn am gynnydd o ran ymdrech y gweithwyr (o ran y pellter a deithir a nifer y siwrneiau i'r modiwlau) o 60% yn ystod gweithrediadau diboblogi ar ddiwedd y cylch magu, a 100% yn ystod gweithrediadau teneuo.

**Amcangyfrif yn rhy isel am y costau**

Thema bwysig arall oedd y gred bod yr asesiad wedi amcangyfrif yn rhy isel am y costau sy'n gysylltiedig â'r dulliau dal ieir gerfydd dwy goes a dal ieir â'u pennau i fyny. Priodolwyd hyn yn bennaf i'r gred bod yr amseroedd dal wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel. Ymhlith y pwyntiau penodol a oedd yn destun dadl, roedd y pwyntiau a ganlyn:

- mai data o astudiaethau Ewropeaidd a ddefnyddiwyd ac nad oedd data cadarn ar gael ar sail systemau cynhyrchu masnachol Prydain
- bod yr amseroedd dal amcangyfrifedig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad ar gyfer ieir cig ac ieir dodwy yn fyrrach na'r rheini a gofnodwyd mewn astudiaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng Ngwlad Belg (gweler Delanglez et al., 2024; Delanglez et al., 2025)
- na chafodd data penodol eu defnyddio o ran ieir dodwy ac, o'r herwydd, fod rhagdybiaethau bras wedi'u gwneud ar draws sectorau gan mai dim ond data ieir cig a ddefnyddiwyd
- na chafodd yr amrywiaeth eang o systemau cadw dofednod eu hystyried, gan gynnwys systemau symudol, dec gwastad ac aml-haen. Bydd lefel hygyrchedd pob system yn wahanol ac, o'r herwydd, bydd y pellteroedd trin a'r amseroedd llwytho yn wahanol

Bu i sawl ymateb grybwyll y ffaith nad ystyriwyd y broses o drin adar pan gânt eu dadlwytho yn y gyrchfan (er enghraifft, yn achos cywennod, yn yr uned ddodwy), rhywbeth a fyddai'n effeithio ymhellach ar gost pontio at ddull arafach.

Roedd ychydig o'r ymatebwyr yn anghytuno'n benodol â'r disgrifiad o'r polisi fel polisi ac iddo ddim cost, gan fod y dull dal gerfydd un goes yn cael ei ddefnyddio'n eang. Roedd ymateb a goladwyd gan y diwydiant yn amcangyfrif bod bron i 90% o'r holl ieir cig ac ieir magu cywion brwylio yn cael eu dal gerfydd un goes i'w cludo i'w lladd.

Tynnodd sawl ymateb a goladwyd gan y diwydiant sylw at gostau eraill (gorbenion) y dylid eu hystyried hefyd, yn ychwanegol at dâl y gweithwyr dal ieir. Mae'r rhain yn

cynnwys darparu cyfarpar a cherbydau ychwanegol (ynghyd â thanwydd ac yswiriant), gweithwyr ychwanegol nad ydynt yn dal ieir (i weinyddu ac i oruchwylio), a hyfforddiant. Pe bai'r diwydiant ieir cig yn pontio'n llwyr o drefn dal gerfydd un goes at drefn dal gerfydd dwy goes, maent yn amcangyfrif y byddai eu costau'n cynyddu £22.9 miliwn y flwyddyn, ac yn cynyddu £53.2 miliwn pe baent yn pontio at drefn dal ieir â'u pennau i fyny. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr amser a'r adnodd ychwanegol y maent yn disgwyl y byddai eu hangen ar eu timau i barhau i ddarparu cyflenwad o'r un maint i'r ffatrïoedd prosesu gan ddefnyddio dulliau dal arafach.

### Dim ystyriaeth ddigonol o ystyriaethau lles uniongyrchol

Roedd sawl ymatebwr yn teimlo bod yr asesiad yn rhoi pwyslais anghymesur ar ystyriaethau ariannol (fel cost ac amseroedd dal) o'i gymharu ag ystyriaethau anariannol (fel canlyniadau lles anifeiliaid).

Er i'r ymatebwyr hyn gydnabod bod yr asesiad yn cyfaddef bod mathau o niwed lles yn gysylltiedig â dal ieir gerfydd eu coesau, gan gynnwys anafiadau, straen, poen, a marwolaeth, nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried yn ddigon manwl yn y fframwaith cost a manteision. Roeddent yn dadlau bod tystiolaeth wyddonol glir yn dangos bod dal ieir â'u pennau i fyny yn darparu mantais anariannol sylweddol o ran lles ieir. Ar y sail honno, roeddent yn anghytuno â'r datganiad nad oes tystiolaeth nad yw dal gerfydd y coesau'n dderbyniol.

Ym marn un rhanddeiliad o blith y cyrff anllywodraethol, gan fod y gwahaniaeth ariannol rhwng dal ieir gerfydd dwy goes a'u dal â'u pennau i fyny yn gymharol fach (£2.7 miliwn, neu'r hyn sy'n cyfateb i 0.2 ceiniog yr aderyn, fel yr amcangyfrifir gan yr asesiad effaith), dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i Opsiwn 2 (diwygio canllawiau statudol Prydain Fawr er mwyn iddynt fod yn unol â'r ddeddfwriaeth).

### Hepgor risgiau anfwriadol i les adar

Mynegwyd pryderon dro ar ôl tro fod yr asesiad wedi methu ag ystyried yn ddigonol y risgiau ychwanegol i les adar a allai godi o symud at drefn dal ieir â'u pennau i fyny. Dyma rai o'r enghreifftiau penodol a roddwyd:

- mewn sefyllfa lle nad oedd modd darparu mwy o weithwyr, roedd pryder y byddai amseroedd dal hirach yn peri i adar fod yn fwy agored i ffactorau straen eraill, fel pa mor hir y byddent heb fwyd a dŵr (yn enwedig yn achos ieir dodwy gan eu bod yn aml yn cael eu cludo dros bellteroedd hirach)
- ceir mwy o risg o straen thermol (mewn amodau sy'n rhy gynnes neu'n rhy oer) pan fydd ieir yn treulio cyfnodau estynedig heb i'r lori symud, neu heb fod modd cau'r llenni
- pe bai'r gweithwyr yn blino, gallai effeithio'n negyddol ar les yr adar
- gallai fod mwy o risg o niwed i asgwrn y frest, gan fod mwy o aflonyddwch os ceir mwy o ddalwyr yn y sied yn gwneud mwy o siwrneiau i'r modiwlau ac ohonynt

- gallai fod mwy o risg o ddigwyddiadau mygu (am yr un rheswm)

Mae mygu yn ffenomenon ymddygiadol andwyol sy'n digwydd pan fydd adar yn mynd i banig ac yn heidio gyda'i gilydd yng nghornel adeiladau, rhywbeth sydd weithiau'n arwain at fygu a chyfradd farwolaethau uchel.

**Ymatebion eraill**

Tynnodd ymateb a goladwyd gan y diwydiant sylw at y ffaith bod gan y llywodraeth agenda dwf, ac eto nid oedd yr asesiad yn ystyried effaith y cynnig polisi ar dwf. Pe bai'r broses o ddal ieir yn mynd yn rhy ddrud, roedd yn pryderu y byddai risg y byddai cynhyrchion dofednod a gynhyrchir yn lleol yn cael eu disodli gan gynhyrchion â safonau lles is a fewnforir o'r tu allan i Brydain Fawr.

Cyfeiriodd corff anllywodraethol at fater a oedd yn gysylltiedig â chynaliadwyedd amgylcheddol na chafodd ei ystyried yn yr asesiad effaith. Gan fod dulliau arafach yn peri ei bod yn cymryd mwy o amser i lenwi cerbyd cludo, bydd angen defnyddio tîm dal mwy o faint neu ddefnyddio mwy o gerbydau cludo i sicrhau bod yr adar yn treulio cyn lleied â phosibl o amser mewn cratiau. O gynyddu nifer y cerbydau a ddefnyddir i gludo gweithwyr dal i ffermydd, neu ddofednod i'w cyrchfan nesaf, gallai effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd.

# Dal tyrcwn

## C19. Ydych chi neu eich sefydliad yn dal tyrcwn (o dan 10kg) ar gyfer gweithrediadau llwytho a dadlwytho?

**Tabl 13:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn a yw'r ymatebwr neu'i sefydliad yn dal tyrcwn

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 5% |
| **Nac ydw** | 76 | 74% |
| **Heb ateb** | 22 | 21% |

Dim ond pump o'r 103 ymatebwr (5%) a ddywedodd eu bod yn dal tyrcwn (o dan 10kg) ar gyfer gweithrediadau llwytho a dadlwytho. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion a goladwyd gan y diwydiant. Bu i'r 98 ymatebwr sy'n weddill (95%) naill ai ateb 'nac ydw' neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Dim ond yr ymatebwyr sy'n dal tyrcwn a atebodd y cwestiwn canlynol (C20).

## C20. Pa rai o'r dulliau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i ddal tyrcwn (llai na 10 kg) at ddibenion llwytho a dadlwytho?

**Tabl 14:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn pa ddulliau a ddefnyddir i ddal tyrcwn. Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na phump (nifer yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' i gwestiwn 19) gan fod sawl ymatebwr wedi dewis mwy nag un ateb.

| Ymateb | Cyfanswm |
|---|---|
| **Dwy goes** | 4 |
| **Corff** | 3 |
| **Arall** | 2 |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 0 |

O blith y pum ymatebwr a ddywedodd eu bod yn dal tyrcwn (o dan 10kg), honnodd pedwar o'r pump eu bod yn eu dal gerfydd dwy goes, tri o'r pump eu bod yn eu dal gerfydd eu cyrff, a dau o'r pump eu bod yn defnyddio dull 'arall'.

Darparodd ymateb a goladwyd gan y diwydiant wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir fel rheol i ddal, i godi ac i gario tyrcwn o fewn ystodau pwysau amrywiol (tabl 15). Mae hyn, i raddau helaeth, yn gydnaws â safonau sicrwydd yr RSPCA a ddarparwyd hefyd.

**Tabl 15:** Gwybodaeth (a gyflwynwyd fel rhan o ymateb a goladwyd gan y diwydiant) o ran y dulliau trin a ddefnyddir fel rheol ar gyfer tyrcwn, yn ôl pwysau'r aderyn

| Pwysau'r aderyn | Dull trin | Cyfeiriadedd |
|---|---|---|
| **Llai na 2kg** | Gerfydd dwy goes, gyda dim mwy na thri aderyn ym mhob llaw | Ben i waered |
| **2kg i 5kg** | Gerfydd dwy goes, gyda dim mwy nag un aderyn ym mhob llaw | Ben i waered |
| **5kg i 8kg** | Yn unigol, drwy ddal ysgwydd yr adain sydd bellaf oddi wrth y daliwr a defnyddio'r llaw arall i ddal y ddwy goes. Codi'r aderyn a'i ddal yn agos at gorff y daliwr.<br><br>Dal yr adain allanol: caiff dau aderyn eu llwytho ar yr un pryd gerfydd cymal migwrn yr adain allanol, gan ddal yr adain fewnol i gynnal pwysau corff yr adar. | Â'u pennau i fyny |
| **Mwy nag 8kg** | Yn unigol, drwy afael yn ysgwydd yr adain sydd bellaf oddi wrth y daliwr a defnyddio'r llaw arall i ddal y goes agosaf. Codi'r aderyn a'i ddal yn agos at gorff y daliwr. | Â'u pennau i fyny |

Bu i ymatebwr unigol gadarnhau bod adar, o dan 10kg, yn cael eu dal, eu codi a'u cario naill ai gerfydd dwy goes (un ym mhob llaw), yn null pêl rygbi (y ddwy law) neu drwy gyfuniad o un goes ac un adain (un aderyn ar y tro). Nid oedd adar dros 10kg

ond yn cael eu dal, eu codi a'u cario gerfydd un goes ac un adain (un aderyn ar y tro) neu'u heidio.

## C21a. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: 'Dylid caniatáu'n gyfreithiol i ddal tyrcwn (llai na 10 kg) wrth ddwy goes er mwyn llwytho a dadlwytho'?

Honnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55 o'r 103, 53%) eu bod yn 'anghytuno'n gryf' â'r cynnig y dylai'r gyfraith ganiatáu i dyrcwn (o dan 10kg) gael eu dal gerfydd dwy goes at ddiben eu llwytho a'u dadlwytho. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fesul grŵp rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- Y cyhoedd = 36 ymateb (gyda 29 o'r rheini'n rhan o ymateb ymgyrch)
- Cyrff anllywodraethol = 12 ymateb
- Academyddion = 4 ymateb
- Awdurdodau lleol = 2 ymateb
- Y diwydiant dofednod = 1 ymateb

Yr ymateb mwyaf poblogaidd ond un oedd 'cytuno'n gryf' (13 o'r 103, 13%). Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fesul grŵp rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- Y diwydiant dofednod = 9 ymateb
- Y cyhoedd = 2 ymateb
- Academyddion = 1 ymateb
- Cyrff anllywodraethol = 1 ymateb

**Tabl 16:** Ymatebion i'r cwestiwn caeedig a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad: 'Dylid caniatáu'n gyfreithiol i ddal tyrcwn (llai na 10 kg) wrth ddwy goes er mwyn llwytho a dadlwytho'

| Ymateb | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | 13 | 13% |
| **Cytuno** | 6 | 6% |
| **Niwtral** | 2 | 2% |
| **Anghytuno** | 6 | 6% |
| **Anghytuno'n gryf** | 55 | 53% |
| **Ddim yn gwybod** | 9 | 9% |
| **Heb ateb** | 12 | 12% |

Y prif ymatebion eraill a logiwyd oedd 'Ddim yn gwybod' (9 ymateb, 9%), 'Cytuno' (6 ymateb, 6%), ac 'Anghytuno' (6 ymateb, 6%). Ni fu i 12 o'r 103 ymatebwr ateb y cwestiwn (12%).

## C21b. Rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud â lles tyrcwn yn ystod, neu ar ôl, dal wrth ddwy goes

Crynodeb o’r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 21b:

**Y rheini nad ydynt yn cefnogi’r datganiad**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno â’r datganiad (C21a) yn ystyried bod dal tyrcwn gerfydd dwy goes yn andwyol i’w lles, neu’n llai priodol o safbwynt lles na dulliau o ddal adar â’u pennau i fyny. Bu i’r ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch argymell cario tyrcwn â’u pennau i fyny fel y dull a ffefrir, oherwydd nid oedd angen troi’r adar ben i waered a byddai’n lleihau’r risg o boen ac anaf.

Roedd rhai ymatebion yn ystyried bod tyrcwn ‘â màs y corff o hyd at 10kg’ yn rhy drwm i’w codi gerfydd eu coesau yn unig. Cydnabuwyd bod angen cynnal mwy o ymchwil i’r maes hwn oherwydd, hyd yma, ychydig iawn o astudiaethau sydd wedi ystyried effaith dulliau o ddal tyrcwn ar eu lles. Bu i’r ymatebwyr rag-weld y byddai’r heriau lles sy’n gysylltiedig â throi’r adar ben i waered, fel pwysau cynyddol ar y cymalau, y galon a’r system anadlol (a allai arwain at boen, anaf, ac anawsterau anadlu), yn cynyddu yn ôl pwysau’r aderyn.

Un o’r pryderon lles penodol a grybwyllwyd oedd yr anhawster posibl o ran sicrhau bod aderyn o’r maint hwn yn cael ei drosglwyddo’n ddiogel i ddroriau uwch, gan gynnal rheolaeth dda dros ei adenydd, ei wddf a’i ben ar yr un pryd i atal trawma.

Awgrymodd sawl ymatebwr y dylai unrhyw drothwy pwysau uchaf a bennir, gan ganiatáu i adar o dan y pwysau hwnnw gael eu dal gerfydd dwy goes, fod yn gydnaws â’r terfynau pwysau presennol sy’n gysylltiedig â datgymalu gyddfau dofednod.

Pan gaiff deddfwriaeth ei chreu yn y dyfodol, rhybuddiodd corff anllywodraethol y dylid sicrhau na chaiff y technegau dal adain-a-choes yr ystyrir eu bod yn arferion gorau ar hyn o bryd ar gyfer codi tyrcwn trwm eu gwahardd drwy amryfusedd.

**Y rheini sy’n cefnogi’r datganiad**

Prif farn y rheini a oedd naill ai’n ‘cytuno’ neu’n ‘cytuno’n gryf’ â’r datganiad y dylid caniatáu i dyrcwn gael eu dal gerfydd dwy goes oedd nad yw eu dal gerfydd dwy goes yn andwyol i’w lles. Bu i’r ymatebwyr gadarnhau bod dull dal gerfydd dwy goes yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn mewn systemau cynhyrchu ‘deor a symud’ ar gyfer tyrcwn, pan fo adar ifanc yn cael eu symud fel mater o drefn (naill ai o fewn yr un fferm neu i fferm fagu) yn bedair i chwe wythnos oed, pan fyddant yn dal i fod yn gymharol ysgafn.

Tanlinellwyd hefyd fod gweithwyr fel rheol yn dal tyrcwn, ac yn dal gafael ynddynt, gerfydd dwy goes pan fydd yr adar yn cael eu brechu ac yn ystod proses ffrwythloni artiffisial, er nad ydynt ond yn cael eu troi ben i waered am gyfnod byr yn ystod y triniaethau hyn.

Bu i sawl ymatebwr grybwyll cyflymder a chost. Mynegwyd pryder y gallai defnyddio dull dal fel pêl rygbi yn hytrach na dull dal gerfydd dwy goes ar gyfer adar bach sy'n cael eu magu fel rhan o weithrediadau deor a symud arafu'r broses ddal yn sylweddol.

## Barn am ymchwil yn y dyfodol

### C22. Rydym yn bwriadu comisiynu ymchwil mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC) y dylid casglu a dadansoddi data ychwanegol ar y berthynas rhwng gwahanol ddulliau dal â llaw a chanlyniadau lles. Rhowch unrhyw farn sydd gennych am y ffordd orau o gynhyrchu data cadarn o'r math hwn

Crynodeb o'r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 22:

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn argymell casglu ystod lawn o fetrigau lles wedi'u diffinio'n glir ar y fferm ac yn y ffatri brosesu, gan gynnwys cyfraddau anafiadau (fel toriadau, cleisiau a datgymaliadau), dangosyddion straen ymddygiadol a ffisiolegol (gan gynnwys lefelau corticosteron, lleisiadau, ymgais i ddianc ac ansymudedd tonig), a data am farwolaethau.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebion fod angen cynnal yr ymchwil ar sail systemau masnachol ac ar raddfa fawr (yn hytrach na defnyddio canolfan ymchwil). Argymhellwyd hefyd y dylid cynnwys cynifer â phosibl o wahanol systemau cynhyrchu, systemau cadw dofednod ac arferion i gyfrif am yr amrywioldeb o ran cymhlethdod systemau cadw dofednod a maint yr adar (caiff ieir cig llai o faint eu dal yn ystod yr arfer o deneuo).

Roedd cysondeb yr hyfforddiant yn thema boblogaidd. Tanlinellodd yr ymatebwyr bwysigrwydd defnyddio timau dal y diwydiant sydd wedi'u hyfforddi'n llwyr (ac sy'n brofiadol), a bu iddynt hefyd awgrymu y byddai modd defnyddio prosiect ymchwil i ddatblygu dulliau dal i'w defnyddio mewn rhaglenni hyfforddi.

Bu i ychydig o'r ymatebion grybwyll yn benodol yr angen i gasglu data am y dulliau gorau i'w defnyddio i ddal a symud tyrcwn, ac am i'r rhain gael eu defnyddio wrth lunio canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i egluro pa ddulliau codi a chario y dylid caniatáu eu defnyddio ar gyfer gwahanol ystodau pwysau.

Dyma rai o'r themâu eraill a nodwyd:

- yr angen i gynnwys asesiad o iechyd a diogelwch y tîm dal yng nghynllun yr astudiaeth
- yr angen i safoni cynifer o ffactorau â phosibl, gan gynnwys brîd a phwysau, yn ogystal ag elfennau eraill a allai fod yn ddryslyd, fel 'fferm' neu 'ffatri brosesu'. Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys defnyddio gwahanol ddulliau dal gyda'r un haid, a cheisio cyfyngu ar amrywioldeb o ran 'niwed yn ystod y broses ddal' (mesur o'r niwed i garcasau ar ôl eu cludo, eu lladd, eu sgaldio a'u pluo) drwy ddefnyddio'r un lladd-dy
- yr argymhelliad y dylid cynnwys arbenigwyr annibynnol ym maes lles anifeiliaid i oruchwylio'r ymchwil (i sicrhau ei bod yn ddiduedd ac i leihau'r risg o ogwydd masnachol)

Roedd cyrff masnach y sector yn awyddus y dylent hwy, a rhanddeiliaid eraill ym maes dofednod o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi, chwarae rhan uniongyrchol yn yr ymchwil hon yn y dyfodol, a hynny oherwydd y cymorth y gallant ei ddarparu a'u dealltwriaeth fanwl o'r gwahanol ddiwydiannau.

Tynnodd sawl ymatebwr sylw at fodolaeth setiau data perthnasol eraill sy'n cael eu cynhyrchu gan brosiectau amrywiol yn yr UE ar hyn o bryd, a bu iddynt bwysleisio gwerth dysgu ar y cyd.

Ymhlith yr argymhellion eraill a wnaed roedd cyfrifo'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwahanol amseroedd dal, cynnwys dal gerfydd un goes fel un o'r dulliau prawf, cyfyngu ar yr astudiaeth er mwyn ystyried technegau nad ydynt yn ymwneud â dal coesau yn unig, a chyhoeddi'r data yn y pen draw i sicrhau tryloywder llwyr.

## Unrhyw ystyriaethau pellach

### C23. Darparwch unrhyw ystyriaethau pellach y teimlwch y dylid eu nodi ynghylch y cynnig polisi i ddiwygio Rheoliad 1/2005 (er enghraifft, rhwystrau rhag recriwtio)

Crynodeb o'r prif themâu ar gyfer cwestiwn penagored 23:

Fel yr adroddwyd eisoes yng nghwestiwn 9, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent o blaid newid y ddeddfwriaeth. Yn hytrach, byddai'n well ganddynt pe bai'r llywodraeth yn mabwysiadu Opsiwn 2 (yr opsiwn nad yw'n un deddfwriaethol, fel y nodir yn yr asesiad effaith). Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol diwygio canllawiau statudol Prydain Fawr i adlewyrchu'r gwaharddiad ar godi anifeiliaid gerfydd eu coesau a geir yn Rheoliad 1/2005, a'i gwneud yn ofynnol dal a chario ieir gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau a oedd yn anghytuno â'n cynigion yn cynnwys testun yr oedd modd ei adnabod fel ymateb ymgyrch. Pryderon lles sy'n gysylltiedig â

dal adar ben i waered, rhywbeth sy’n gysylltiedig â’u codi gerfydd eu traed, a nodwyd amlaf fel y rheswm dros ffafrio’r opsiwn hwn, ac roedd hyn yn seiliedig ar lenyddiaeth wyddonol gyhoeddedig ac ar y farn a gyhoeddwyd yn 2024 gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid am oblygiadau lles gwahanol ddulliau a systemau o ddal, cario, casglu a llwytho dofednod.

Roedd yr ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch yn cydnabod bod dal ieir gerfydd dwy goes yn well i’w lles na’u dal gerfydd un goes, gan fod eu codi a’u cario gerfydd un goes yn cynyddu’r risg o anafiadau fel toriadau, datgymaliadau a chleisiau, tra mae codi gerfydd dwy goes yn gwasgaru’r pwysau a gynhelir gan bob cymal.

Roedd yr ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch hefyd yn cydnabod y byddai’r diwydiannau dofednod yn wynebu her sylweddol pe bai’n symud oddi wrth ddull dal gerfydd un goes. Roedd hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o’r ymatebion a gofnodwyd fel rhai nad oeddent o blaid Opsiwn 1, y cynnig i ddiwygio’r ddeddfwriaeth i ganiatáu i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes (fel y nodir yn yr asesiad effaith), hefyd yn cytuno y gallai Opsiwn 1 fod yn gam interim derbyniol. Fodd bynnag, ni fyddai cam o’r fath ond yn cael ei ystyried yn dderbyniol pe bai’n arwain at roi Opsiwn 2 ar waith yn llwyr ymhen pum mlynedd.

Roedd yr ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch yn awgrymu y byddai cyfnod pontio o’r fath yn rhoi digon o amser i’r diwydiant dofednod addasu ei systemau gweithredol, hyfforddi gweithwyr o ran technegau trin ieir â’u pennau i fyny, buddsoddi mewn newidiadau angenrheidiol i’r cyfarpar, a chefnogi ymchwil bellach i ddulliau amgen o ddal ieir. Byddai hefyd yn sicrhau bod modd casglu data ychwanegol am effeithiau lles gwahanol dechnegau cario a sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ar gael ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Gwnaed argymhellion pellach yn yr ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch:

- dylid defnyddio Tystysgrifau Cludo Anifeiliaid i gasglu gwybodaeth am ‘y dull dal a ddefnyddiwyd’ at ddibenion monitro a gorfodi
- dylid defnyddio systemau cofnodion digidol i fonitro faint o adar sy’n cael eu lladd ar ffermydd oherwydd arferion dal, cario, a llwytho

Daeth amrywiaeth eang o themâu eraill i’r amlwg o’r ymatebion a goladwyd gan y diwydiant a’r ymatebion a ddaeth i law gan unigolion. Ystyrir y rhain, yn eu tro.

### Gwella cynllun siediau cadw dofednod

Tynnwyd sylw dro ar ôl tro at yr angen i wella cynllun siediau cadw dofednod ac i fuddsoddi mewn cyfarpar gwell a dulliau mecanyddol i leihau’r amser cario â llaw, yn enwedig o ran hwyluso dull dal dofednod a’u pennau i fyny. Ymhlith y pwyntiau penodol a wnaed, roedd y pwyntiau a ganlyn:

- nid yw cynllun systemau aml-haen (adardy) modern yn rhoi ystyriaeth ymarferol i’r broses o ddal dofednod

- dim ond cyfran fach o siediau ieir cig Prydain sy'n addas ar hyn o bryd ar gyfer peiriannau dal ieir mecanyddol mawr
- gall fod angen addasu'r siediau cadw presennol yn llwyr i sicrhau bod modd i ddau dîm dal (gyda'u tryciau fforch godi eu hunain) weithio yn yr un sied ar yr un pryd

**Hyfforddiant**

Bu i'r ymatebwyr bwysleisio'n aml fod angen i'r diwydiant gael hyfforddiant gwell o ran dulliau dal amgen. Roedd rhai ohonynt yn teimlo bod angen sylfaenol i fynd ati (o bosibl drwy ymchwil a gomisiynir) i ddatblygu dulliau effeithiol o ddal dofednod (gerfydd dwy goes a gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny) sy'n addas i bob sector penodol ac i bob system cadw dofednod benodol. Roedd ymatebion penodol yn trafod materion a oedd yn gysylltiedig â themâu eraill, ond y prif ffocws oedd sicrhau ansawdd dulliau trin adar (i ddiogelu lles adar) a diogelu iechyd a diogelwch y dalwyr eu hunain.

**Problemau anfwriadol o ran lles adar**

Bu i sawl ymatebwr fynegi pryder y gallai symud at ddull dal arafach (fel dal dofednod gerfydd dwy goes neu gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny) greu problemau lles 'anfwriadol' ychwanegol drwy i'r amseroedd dal gynyddu. Cafodd problemau o'r fath eu crybwyll eisoes fel materion a allai fod wedi'u hepgor o'r asesiad effaith. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys: mwy o risg o fygu ac o dorri asgwrn y frest, straen sy'n gysylltiedig â thymheredd, a'r perygl y gallai adar fod heb fwyd a diod am yn hirach na'r terfynau amser gofynnol. Dywedodd un ymatebwr fod amseroedd dal hirach wedi'u cysylltu â chyfraddau uwch o ran anafiadau, marwolaethau cyn cyrraedd y lladd-dy, a straen.

Tynnwyd sylw penodol at flinder ymhlith gweithwyr dal dofednod hefyd. Awgrymwyd y gallai pontio at ddull dal sy'n rhoi mwy o straen ar y corff beryglu lles adar a phobl, oherwydd os yw'r tîm dal yn fwy blinedig, gall fod yn fwy tebygol y bydd camgymeriadau, ac anafiadau o ganlyniadau i'r camgymeriadau hynny, yn digwydd.

**Risg alwedigaethol**

Roedd nifer o'r ymatebion yn ystyried bod angen adolygu'r risgiau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â dal ieir gerfydd dwy goes a'u dal â'u pennau i fyny, ac roedd y rhain yn perthyn i ddwy thema fras. Y pwynt cyntaf, fel y crybwyllwyd eisoes yng nghwestiwn 10, oedd bod rhai technegau dal ieir yn gofyn mwy gan y dalwyr eu hunain o safbwynt ergonomig a chorfforol. Yr ail bwynt a wnaed oedd y posibilrwydd y gallai cael mwy o bobl yn gweithio oriau hirach mewn gofod caeedig lle y mae peiriannau'n gweithredu achosi problemau iechyd a diogelwch difrifol.

Roedd un o'r ymatebion a goladwyd gan y diwydiant yn disgrifio'r sefyllfa sylfaenol ar hyn o bryd lle y ceir sawl tîm dal ar y safle eisoes, ynghyd â chontractwyr carthu a glanhau, staff y fferm, gweithredwyr peiriannau a gyrwyr faniau. Aeth yn ei flaen i ddweud y byddai cynyddu nifer y bobl ymhellach yn ei gwneud yn anodd rheoli traffig ar y safle, ac y gallai greu sefyllfa beryglus. Byddai'r datrysiad a awgrymwyd yn peri bod angen addasu'r siediau i ganiatáu i ddau dîm dal weithio ochr yn ochr â'i gilydd, yn yr un sied ar yr un pryd. Byddai hyn yn ddrud ac yn peri bod angen buddsoddi mewn seilwaith (yn ddibynnol ar gyfyngiadau cynllunio) a chyfarpar ychwanegol, fel wagenni fforch godi a cherbydau.

**Prinder gweithwyr**

Mynegwyd pryderon dro ar ôl tro am argaeledd gweithwyr. Rhybuddiodd ymatebion a goladwyd gan y diwydiant fod angen mynd i'r afael ar fyrder â phrinder gweithwyr a phroblemau recriwtio i sicrhau na chaiff problemau lles ychwanegol eu creu ac i gynnal diogeledd bwyd.

Bu i ymatebwyr o'r diwydiant ddisgrifio dal dofednod fel swydd fedrus iawn sy'n gorfforol anodd (ac yn aml yn cael ei chyflawni yn y nos), a bu iddynt gadarnhau bod prinder timau dal ledled Prydain Fawr ar hyn o bryd oherwydd problemau recriwtio. Ychydig o wladolion Prydeinig sy'n barod i wneud y gwaith. Bu iddynt egluro bod y sector yn draddodiadol yn dibynnu'n fawr ar weithwyr mudol i gyflawni'r gwaith, ond bod y polisïau mewnfudo sydd ar waith ers Brexit wedi lleihau'r cyflenwad hwn o weithwyr. Mae'r sefyllfa bresennol o ran ffliw adar hefyd wedi cynyddu'r galw am dimau dal.

Un o'r pryderon a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y gallai prinder dalwyr dofednod waethygu ymhellach y canlyniadau lles anfwriadol sy'n gysylltiedig ag amseroedd hirach o ran dal adar, eu gosod mewn cratiau, ac aros. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y diwydiant y gallai peri i'r swydd fod yn fwy corfforol beri i'r gwaith gael ei ystyried hyd yn oed yn llai deniadol. Yn ogystal â'i gwneud yn anoddach i'r cwmnïau dal dofednod gadw'u staff presennol, gallai hefyd greu mwy o rwystr rhag recriwtio. Roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn leihau'r sylfaen sgiliau, rhywbeth a allai yn ei dro leihau ansawdd y gwaith dal ac, o bosibl, effeithio ar les adar.

Eglurodd rhanddeiliaid y diwydiant fod gofyn i dimau dal weithio yn unol ag amserlenni tynn. Mae'r amserlenni hyn yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau bod ffatrïoedd prosesu ieir cig yn cael y swm cywir o adar i gynnal yr allbwn cynhyrchu gofynnol. Bu iddynt bwysleisio y gallai unrhyw broblem o ran argaeledd gweithwyr arwain yn gyflym iawn at broblemau lles ar ffermydd oherwydd gorstocio, yn ogystal ag effeithio ar argaeledd bwyd ar gyfer defnyddwyr.

Awgrymwyd y byddai modd cefnogi camau i ddatblygu'r gweithlu drwy gynllun a gyflwynir gan y llywodraeth.

### Effaith costau ychwanegol

Mynegodd sawl ymatebwr bryder y gallai'r gost ariannol a fyddai ynghlwm wrth symud oddi wrth ddull dal gerfydd un goes at ddull dal gerfydd dwy goes beryglu diogeledd bwyd cenedlaethol ac annog mewnforio cynhyrchion wyau ac ieir o wledydd eraill â safonau lles anifeiliaid, safonau diogelwch bwyd a safonau amgylcheddol is na Phrydain Fawr.

Roedd un ymateb a goladwyd gan y diwydiant yn amcangyfrif y byddai symud at ddull dal gerfydd dwy goes yn cynyddu'r costau dal hyd at 100%. Byddai'r costau ychwanegol hyn yn deillio o gyfuniad o fod angen mwy o weithwyr i gefnogi dull dal arafach (gan gymryd y gellir dod o hyd i weithwyr ychwanegol), addasiadau posibl i'r siediau cadw ieir a'r seilwaith, a gofyniad i gael cyfarpar a cherbydau ychwanegol.

Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai hyn effeithio ar gynhyrchu domestig pe bai costau cynyddol yn peri na fyddai rhai busnesau'n hyfyw. Mynegwyd pryder hefyd y byddai cynnydd yng nghostau'r gadwyn gyflenwi ddomestig yn arwain at brisiau uwch ar y silff.

### Cydymffurfiaeth

Tynnodd rhai ymatebion, a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, sylw at yr angen am well cydymffurfiaeth a rheolaeth reoleiddiol. Awgrymwyd gorfodi timau dal i wisgo camerâu, neu orfodi ffermydd i ddefnyddio system teledu cylch cyfyng, fel opsiynau posibl.

# Ymateb y llywodraeth, a'r camau nesaf

Mae lles anifeiliaid yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli. Mae'r datganiad polisi hwn yn ddatganiad ar y cyd gan lywodraethau'r Deyrnas Unedig, Cymru a'r Alban.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r ystod o ymatebion a ddaeth i law. Drwy'r ymgynghoriad, cafodd rhai ystyriaethau pwysig eu codi o ran sut y mae'r polisi dal dofednod yn gweithredu, ac mae wedi cynorthwyo i osod sail ar gyfer y cyfeiriad yr hoffem fynd iddo.

Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd i bobl roi eu barn ynghylch ein cynigion i ddarparu eglurder o ran y dulliau y caniateir eu defnyddio i ddal ieir yn ystod gweithrediadau cludo, hyd nes bod mwy o ymchwil wedi'i chynnal yn y maes hwn. Gofynnodd hefyd i bobl roi eu barn ynghylch a ddylai'r cynigion hynny fod yn gymwys i dyrcwn o fewn ystod bwysau benodol. Cafodd dau opsiwn rheoleiddiol eu cynnwys, sef Opsiwn 1 (diwygio Rheoliad 1/2005 i ganiatáu'n benodol i ieir gael eu dal gerfydd dwy goes) ac Opsiwn 2 (diwygio canllawiau statudol Prydain Fawr i roi'r gorau i ddal ieir gerfydd eu coesau a mynnu eu bod yn cael eu dal gerfydd eu cyrff). Byddai'r opsiynau hyn yn sicrhau cysondeb rhwng y gofynion cyfreithiol yn Rheoliad 1/2005 a chanllawiau statudol Prydain Fawr, ac yn darparu sicrwydd o ran gwarchod

lles ieir a thyrcwn yn ystod gweithrediadau dal sy'n gysylltiedig â'u cludo. Bu i'r Ymgynghoriad ar ddal a thrin dofednod egluro pam fod llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban yn ffafrio Opsiwn 1 yn hytrach nag Opsiwn 2. Ar ôl adolygu'r ymatebion, rydym yn dal i ystyried mai Opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf priodol i sicrhau cysondeb rhwng Rheoliad 1/2005 a chanllawiau statudol Prydain Fawr, er mwyn rhoi sicrwydd o ran y dulliau y caniateir eu defnyddio i ddal ieir a thyrcwn gerfydd eu coesau.

Rydym yn cydnabod bod llawer o dystiolaeth yn awgrymu mai dal adar gerfydd eu cyrff â'u pennau i fyny yw'r dull gorau posibl o'u trin i leihau'n uniongyrchol niwed sy'n gysylltiedig â'u lles. Fodd bynnag, yn y Farn a gyhoeddwyd ganddo yn 2024, mae'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid (y Pwyllgor) yn datgan: "From a welfare viewpoint, upright catching and carrying are likely to be preferable to catching by the legs and carrying inverted providing that, in the situation in question, welfare gains are not offset by welfare harms resulting from increased catching, carrying, loading and waiting durations." Mae hefyd yn adrodd: "…the method that is likely to deliver higher welfare for an individual chicken will depend on factors related to the bird, its accommodation and the weather that include: flock type (broiler or layer), breed, flock age, the body conformation of the individual bird, the physical strength of the legs of the individual bird, shed construction, shed furnishings, shed layout, catching personnel, ambient outdoor temperature and outdoor humidity." Ar y sail hon, mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad a ganlyn: "Because of the multiple variables to consider in any specific catching, carrying and loading situation, AWC is unable to specify a single method that will deliver higher bird welfare in every circumstance."

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau ein hasesiad cychwynnol, sef na fyddai'n briodol gorfodi'r diwydiant i bontio at drefn dal dofednod â'u pennau i fyny heb ddod i ddealltwriaeth lwyr a chywir yn gyntaf o'r goblygiadau cyffredinol o ran lles a chost, ac o ddichonoldeb gwneud hynny mewn lleoliadau masnachol ym Mhrydain Fawr. Oni bai inni ddod i ddeall y pethau hyn, ni allwn fod yn hyderus y byddai diwydiannau ieir dodwy ac ieir cig Prydain yn gallu pontio'n llwyr at ddull dal ieir â'u pennau i fyny mewn modd a fyddai'n cyflawni gwelliant cyffredinol o ran lles adar ar hyn o bryd.

I fynd i'r afael â'r bylchau yn y dystiolaeth wyddonol, mae Defra wedi comisiynu prosiect ymchwil i astudio effaith gwahanol ddulliau dal (gan gynnwys dal ieir gerfydd dwy goes a'u dal â'u pennau i fyny) i'r graddau y maent yn berthnasol i'n sectorau ieir cig, ieir dodwy a thyrcwn cenedlaethol a'r gwahanol systemau cadw dofednod sy'n gyffredin ym Mhrydain Fawr. Bydd yr ymchwil hon yn gyfle i wyddonwyr lles anifeiliaid gydweithio â thimau dal profiadol i ddatblygu dulliau dal priodol i'w defnyddio gyda gwahanol rywogaethau a gwahanol fathau o seilwaith cadw dofednod. Bydd hefyd yn gyfle i gofnodi'r amseroedd dal, y costau, a'r metrigau lles sy'n berthnasol i'n diwydiannau dofednod i'w defnyddio yn yr asesiad o'r dulliau hynny, o fewn cwmpas y prosiect, sy'n gallu gwireddu'n gyson y canlyniadau cronnus gorau o ran lles. Bydd hyn yn hanfodol i osod sail ar gyfer polisïau sy'n

ymwneud â dulliau dal dofednod yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny yn y diwydiant sydd wedi cynnig cynorthwyo â'r mater hwn i sicrhau bod modd bwrw ymlaen â'r ymchwil hon.

Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r ymchwil hon ar gael o fewn y pum mlynedd nesaf. Defnyddir y data newydd hyn i ystyried a fyddai pontio at drefn dal ieir â'u pennau i fyny ym Mhrydain Fawr yn gwireddu gwelliannau cyffredinol o ran canlyniadau lles anifeiliaid, gan sicrhau ar yr un pryd bod y gwaith cynhyrchu'n parhau a bod diogeledd bwyd ac iechyd a diogelwch gweithlu'r sector yn cael eu diogelu.

Cafodd yr asesiad effaith ei ddiweddaru gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r wybodaeth hon wedi ein cynorthwyo i gadarnhau rhagdybiaethau, fel amcangyfrifon o'r cyflogau a'r arferion presennol, ac i dynnu sylw at y mannau lle y byddai modd inni wella'r rhagdybiaethau, fel yr amseroedd dal amcangyfrifedig ar gyfer ieir dodwy mewn cewyll nythfa wedi'u cyfoethogi. Mae ymatebion rhanddeiliaid y diwydiant yn dangos bod eu hasesiad o effeithiau'r diwygiad arfaethedig yn uwch na'r rheini a geir yn yr asesiad effaith, yn enwedig o ran dulliau dal dofednod â'u pennau i fyny.

Yn ddiweddar, mae cynhyrchwyr wyau wedi symud oddi wrth gynhyrchu mewn cewyll nythfa at systemau siediau aml-haen (adardy) â safonau lles uwch. Nid ydym yn credu bod dal adar â'u pennau i fyny yn addas ar hyn o bryd ar gyfer y systemau aml-haen talach, oherwydd gall dalwyr ei chael yn anodd cael mynediad diogel iddynt i dynnu'r adar ohonynt. Y gobaith yw y bydd y prosiect ymchwil, ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn a'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, yn cynorthwyo i hybu'r mater hwn ac yn annog gweithgynhyrchwyr adardai i ystyried sut y gellir cynllunio systemau yn y dyfodol er mwyn iddynt ddarparu'n well ar gyfer timau dal yn ystod gweithrediadau diboblogi.

Bu i'r ymgynghoriad hefyd gadarnhau bod diwydiant brwyliaid Prydain Fawr yn dibynnu'n bennaf ar ddal adar â llaw ar hyn o bryd, oherwydd mae seilwaith y siediau presennol yn cyfyngu ar y defnydd o systemau dal mecanyddol. Ein gobaith yw y bydd ymrwymiad diweddar sawl archfarchnad i gefnogi cynhyrchu ieir cig ar sail 30kg/m2 yn gyfle i'r diwydiant fuddsoddi mewn mwy o siediau modern sy'n addas i'w defnyddio gyda'r systemau mecanyddol hyn.

Bu inni hefyd ofyn i bobl roi eu barn ar ba un a ddylai Opsiwn 1 gynnwys esemptiad tebyg ar gyfer tyrcwn o dan bwysau penodol. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod tyrcwn sy'n pwyso hyd at 10kg yn rhy drwm i'w troi ben i waered a'u cario gerfydd dwy goes. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid y diwydiant yn dangos mai dim ond tyrcwn sy'n pwyso 5kg, neu lai, sy'n cael eu dal gerfydd dwy goes, tra mae tyrcwn sy'n pwyso mwy na 5kg yn cael eu dal â'u pennau i fyny. Mewn rhai systemau cynhyrchu, caiff tyrcwn rhwng pedair a chwe wythnos oed eu dal fel mater o drefn gerfydd dwy goes, tra mae dulliau arfer gorau sydd wedi ennill eu plwyf yn cynnwys codi adar mwy (trymach) â dwy law (dull pêl rygbi) neu drwy ddal cyfuniad o goes ac ysgwydd.

Ar hyn o bryd, nid yw cod lles Defra ar gyfer tyrcwn yn cynnwys cyngor ar y dull y dylid ei ddefnyddio i ddal, i godi ac i gario tyrcwn. Nid oes gan yr Alban na Chymru ganllawiau statudol cyfatebol. Fodd bynnag, i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyson o ran ieir a thyrcwn, rydym yn ystyried ei bod yn briodol, am y tro, caniatáu i dyrcwn sy'n pwyso 5kg, neu lai, barhau i gael eu dal, eu codi a'u cario gerfydd dwy goes. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau nad yw unrhyw linell sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer tyrcwn yn cau allan unrhyw ddulliau arfer gorau sydd wedi ennill eu plwyf o ran trin adar mwy â'u pennau i fyny drwy ddal cyfuniad o goes ac ysgwydd.

Er bod y llenyddiaeth wyddonol o ran dulliau dal yn dweud yn glir bod i ddull dal gerfydd dwy goes fwy o risgiau lles o'i gymharu â dull dal dofednod â'u pennau i fyny, rydym yn ystyried bod digon o dystiolaeth yn dangos bod eu dal gerfydd dwy goes yn parhau i fod yn safon dderbyniol isaf, oherwydd bydd trin adar yn ofalus yn lleihau'r risgiau hynny. Pan fydd adar yn cael eu llwytho a'u dadlwytho, rydym yn hyderus y bydd trefniadau'n cael eu gwneud, yn ymarferol, i leihau'r amser y mae adar yn cael eu trin ben i waered, oherwydd bydd sicrhau bod y cratiau a'r modiwlau'n cael eu gosod mor agos â phosibl at yr adar yn parhau i fod o fudd pennaf i'r tîm dal. O barhau i ddal mwy nag un aderyn ym mhob llaw, bydd yn darparu rhywfaint o gynhaliaeth i'r corff i helpu i leihau'r risg o anaf tra mae'r adar ben i waered.

Mae'r ymatebion gan y diwydiant yn tanlinellu'n glir gostau posibl pontio o drefn dal gerfydd un goes at drefn dal gerfydd dwy goes. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn bendant o'r farn, fel y nodir yng nghanllawiau statudol Prydain Fawr, nad yw dal gerfydd un goes yn ddull derbyniol o ddal dofednod. Bu'n amlwg ers dros ugain mlynedd nad yw'r dechneg hon yn briodol o ran lles, gan ei bod yn cynyddu'r risgiau o dorri coesau a datgymalu ffemyrau adar yn ystod y broses ddal. Cafodd canllawiau statudol Prydain Fawr eu diweddaru ddiwethaf ar ôl ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2018. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2022 gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) 'Welfare of domestic birds and rabbits transported in containers' a'r farn a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid yn 2024 yn cadarnhau nad yw'n briodol dal dofednod gerfydd un goes oherwydd y risgiau lles sy'n gysylltiedig â'r dull hwn.

I ddileu'r anghysondeb rhwng y ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol sefydledig Prydain Fawr, bydd Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'u cynnig i ddiwygio pwynt 1.8 o Bennod III o Atodiad 1 i Reoliad 1/2005 i esemptio ieir rhag y gwaharddiad ar godi anifeiliaid gerfydd eu coesau. Bydd yr esemptiad hefyd yn cael ei estyn i gynnwys tyrcwn. Bydd hyn yn caniatáu i ieir a thyrcwn gael eu dal, eu codi a'u cario gerfydd dwy goes at ddiben gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'u cludo yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y diwygiad hefyd yn ei gwneud yn glir, pan fo ieir, a thyrcwn sy'n pwyso 5kg neu lai, yn cael eu dal gerfydd eu coesau, bod rhaid eu dal gerfydd dwy goes. Yn

achos tyrcwn sy'n pwyso mwy na 5kg, bydd yn ei gwneud yn glir na chaniateir eu codi a'u cario ben i waered gerfydd eu coesau. Bydd hyn yn rhoi eglurder i'r diwydiannau wyau, ieir cig a thyrcwn, a'u cwmnïau dal cysylltiedig, o ran y gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i ddal dofednod yn ystod gweithrediadau cludo.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai ymatebwyr, yn enwedig y rheini a gyflwynodd ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch, yn siomedig na fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant dofednod bontio at drefn dal adar â'u pennau i fyny yn awr. Yn ymarferol, nid yw hyn yn gyfystyr â gwanhau'r safonau lles, oherwydd tan yn ddiweddar, ni ddeallwyd bod Rheoliad 1/2005 yn ei gwneud yn ofynnol dal ieir â'u pennau i fyny, ac felly bwriadwyd i ganllawiau statudol Prydain Fawr bennu'r dulliau y caniateir eu defnyddio i'w dal.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) o ran gweithdrefnau monitro a gorfodi i sicrhau bod y rheini sy'n dal ieir yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.